CANLLAW I LYWODRAETHWYR

AR Y

CORFF LLYWODRAETHU EFFEITHIOL

RHAN 3

Rôl y Corff Llywodraethu mewn Gwelliant Ysgol

2009

Y Corff Llywodraethu Effeithiol

Rhan 3: Rôl y Corff Llywodraethu mewn Gwelliant Ysgol

Cynnwys Tudalen

Rhagarweiniad	3
Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion	3
Fframwaith Arolygu Estyn	3
Safon Buddsoddwyr mewn Pobl	5
Model Rhagoriaeth EFQM	5
Cymharu'r gwahanol Fodelau a Fframweithiau	6
Hunan Werthuso	7
Beth sy'n gwneud Corff Llywodraethu da	7
Ffactorau Llwyddiant Hanfodol a Phrosesau Allweddol	8
Dangosyddion Perfformiad Allweddol	9
Crynodeb	9
Llyfryddiaeth a chysylltiadau gwefan defnyddiol	10

Manylion cyswllt

Ffôn: 029 2073 1546

E-bost: contact@governorswales.org.uk

Llinell Gymorth: 0845 60 20 100

E-bost: helpline@governorswales.org.uk

Gwefan: www.llywodraethwyrcymru.org.uk

Rhagarweiniad

Gwella perfformiad ysgol yw prif flaenoriaeth corff llywodraethu. Trwy weithio ochr yn ochr gyda'r Pennaeth a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth mae'r corff llywodraethu'n chwarae rhan hanfodol mewn darparu'r cyfleoedd a'r amgylchedd dysgu priodol sydd yn annog pobl ifanc i lwyddo. Mae nifer o Fodelau neu Fframweithiau wedi'u dylunio i helpu ysgolion i wella'n barhaus a disgrifir pedwar o'r rhai mwyaf cyffredin yma.

Y Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion (y Fframwaith)

Mae'r Fframwaith wedi'i seilio ar bum thema craidd o Feddwl Systemau: Dwyieithrwydd; Diwylliant o Berfformiad Uchel; Cydraddoldeb; Cefnogol ac Annibynnol. Mae'n annog ysgolion i gymryd rhan yn weithredol yn y '*cymunedau dysgu'* gyda chefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad ac Awdurdodau Lleol, i ganolbwyntio ar well dysgu a lles y dysgwr.

Mae'r model hwn yn cydnabod na chaiff gwelliant cynaliadwy ei gyflawni trwy agwedd ddarniog. Mae'r chwe elfen: *arweinyddiaeth, gweithio gydag eraill, rhwydweithiau o ymarfer proffesiynol, ymyrraeth a chefnogaeth, gwelliant ac atebolrwydd a chwricwlwm ac addysgu* wedi'u cyd gysylltu. Wrth gynllunio i weithredu mewn un maes o'r Fframwaith mae angen i'r corff llywodraethu ystyried yr effaith a gaiff ar yr elfennau eraill.

Gall integreiddio elfennau'r Fframwaith i Gynllun Datblygu/Gwelliant yr Ysgol ac i hunan werthuso fod yn ffordd dda o gysylltu gwaith yr ysgol a'r corff llywodraethu gyda disgwyliadau Llywodraeth Genedlaethol a Lleol mewn perthynas ag effeithlonrwydd ysgolion.

Mae cyhoeddiad APADGOS , **'Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion'**, yn disgrifio rôl ymarferwyr dosbarth, yr ysgol (yn cynnwys arweinyddiaeth a llywodraethu), Awdurdod Lleol a Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer pob elfen.

(Gellir cael copïau o'r ddogfen Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion o wefan Llywodraeth y Cynulliad: www.wales.gov.uk)

Fframwaith Arolygu Estyn

Mae Arolwg Estyn (ac mewn ysgolion o natur crefyddol, arolwg adran 50) yn defnyddio nifer o gwestiynau allweddol i alluogi'r Tîm Arweinyddiaeth Ysgol a'r llywodraethwyr i ddilysu eu hunan werthusiad o berfformiad yr ysgol. Mae'n darparu meincnod fel bod ysgolion yn gallu mesur eu cynnydd ar hyd graddfa gytun, ac mae brig y raddfa yn nodi bod corff yn arddangos rhagoriaeth mewn maes neilltuol o'u darpariaeth addysg.

Caiff y cwestiynau allweddol a'r cwestiynau atodol a ofynnir gan y fframwaith eu graddio i roi cymhariaeth mesuradwy i ysgolion gydag ysgolion eraill.

Prif amcanion arolwg yw:

- nodi cryfderau a meysydd ar gyfer gwella safonau ac ansawdd;
- darparu gwerthusiad annibynnol o effeithlonrwydd ysgol;
- nodi a hyrwyddo ymarfer da ac ymdrechu am ragoriaeth;
- rhoi gwybodaeth i Lywodraeth y Cynulliad a'r cyhoedd

Mae hunan werthusiad ysgol yn un o'r cyfraniadau allweddol i arolwg felly mae'n hanfodol bod llywodraethwyr wedi asesu eu hysgol yn realistig ac yn systematig yn erbyn y cwestiynau allweddol a'u bod yn gallu dangos dealltwriaeth dda o'r hyn sydd yn digwydd yn eu hysgol. Bydd Arolygwyr yn holi'r llywodraethwyr am yr holl feysydd a ddisgrifir yn nodiadau canllaw 2 a 3 o'r gyfres hon. Am ragor o wybodaeth am y fframwaith arolygu ewch i: www.estyn.gov.uk.

Rhaid i'r corff llywodraethu, gan weithio gyda'r pennaeth a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) sicrhau bod rhieni'n derbyn gwybodaeth ac yn cymryd rhan yn yr arolwg a bod y staff, disgyblion ac enwebai'r ysgol yn cael eu cefnogi wrth baratoi ar gyfer yr arolwg. Bydd aelodau'r corff llywodraethu a'r UDA yn cyfarfod yr Arolygydd Cofrestredig i drafod pob agwedd o lywodraethu gyda chyfeiriad neilltuol at ddylanwad y corff llywodraethu dros y safonau a gyflawnwyd gan yr ysgol a'i myfyrwyr.

Pan gyhoeddir Adroddiad yr Arolwg rhaid i'r corff llywodraethu gynhyrchu Cynllun Gweithredu o fewn 45 diwrnod. Bydd y Cynllun Gweithredu yn delio gyda'r holl bynciau a phwyntiau a godwyd yn Adroddiad yr Arolwg. Rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau ei fod yn monitro ac yn gwerthuso gweithrediad y Cynllun Gweithredu ac yn adrodd ar gynnydd yn ei Adroddiad Blynyddol i rieni.
Cyfeiriad: ***Llawlyfr i Lywodraethwyr Ysgolion yng Nghymru****, Adran 4.8*

Os yw hunan werthuso wedi'i wneud yn systematig ac yn realistig yna bydd nifer o'r materion a godwyd mewn arolwg eisoes wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu/Gwelliant Ysgol.

Fframweithiau Ansawdd Eraill

Yn ychwanegol at Fframwaith Arolygu Estyn (ac arolwg adran 50) mae'r rhan fwyaf o ysgolion a chyrff llywodraethu'n gyfarwydd gyda'r cysyniad o fframweithiau gwelliant ansawdd, gan eu bod wedi gweithio gydag amrywiol fodelau gwelliant eraill sydd yn ategu'r **Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion.** Y mwyaf poblogaidd a'r un a gaiff ei fabwysiadu amlaf yw'r Safon Buddsoddwyr mewn Pobl a'r Model Rhagoriaeth Sefydliad Ewropeaidd dros Reolaeth o Ansawdd (EFQM).

Safon Buddsoddwyr mewn Pobl

Erbyn 2008 roedd tua 600 o ysgolion yng Nghymru wedi derbyn cydnabyddiaeth Buddsoddwyr mewn Pobl ers cyflwyno'r Safon yn gynnar yn yr 1990au. Yn y blynyddoedd diweddar mae tua 70 o ysgolion wedi derbyn asesiad mwy trylwyr o'u Harweinyddiaeth a'u Rheolaeth ac wedi derbyn cydnabyddiaeth ychwanegol. Mae'r Safon wedi'i adolygu a'i ddiweddaru nifer o weithiau ers ei gyflwyniad a bellach mae llawer mwy o gymariaethau gyda rhannau o'r Model Rhagoriaeth Ewropeaidd.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ar 'Defnyddio Buddsoddwyr mewn Pobl i Gefnogi Gwelliant Ysgolion yng Nghymru' a rhai dolenni cysylltiedig o wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru: www.SkillsPeopleSuccess.com or www.governorswales.org.uk

Model Rhagoriaeth Sefydliad Ewropeaidd dros Reolaeth o Ansawdd (EFQM)

Lansiwyd y Model Rhagoriaeth yn gynnar yn yr 1990au, tua'r un amser â Buddsoddwyr mewn Pobl. Mae'r Model wedi'i seilio ar wyth cysyniad sylfaenol: Cyfeiriad Canlyniadau; Ffocws Cwsmer; Arweinyddiaeth a Chysondeb Pwrpas; Rheolaeth trwy Broses a Ffeithiau; Datblygiad a Chyfranogiad Pobl; Dysgu, Gwelliant ac Arloesi Parhaus; Datblygiad Partneriaeth; Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol.

Ers ei sefydlu fel y model Rhagoriaeth Busnes Ewropeaidd neu'r model Ansawdd Cyfan mae'r fframwaith wedi'i adolygu a'i ddiweddaru sawl gwaith i gyd-fynd â newidiadau yn y sectorau preifat a chyhoeddus. Mae ei boblogrwydd cynyddol fel offeryn hunan asesu yn y sector cyhoeddus, ysgolion a cholegau wedi bod yn un o'r ffactorau sydd wedi esgor ar y fframwaith yn aeddfedu i fod yn Fodel Rhagoriaeth Ewropeaidd heddiw.

Mae hunan asesiad ac asesiad allanol (ar gyfer cydnabyddiaeth Cenedlaethol a Rhyngwladol) yn seiliedig ar naw maen prawf:

Galluogwyr:

1. Arweinyddiaeth
2. Polisi a Strategaeth
3. Pobl
4. Partneriaethau ac Adnoddau
5. Prosesau

Canlyniadau:

6. Canlyniadau Cwsmeriaid
7. Canlyniadau Pobl
8. Canlyniadau Cymdeithas
9. Canlyniadau Perfformiad Allweddol

Ym mhob maen prawf mae sawl is faen prawf y bydd aseswyr yn eu defnyddio i fesur effeithlonrwydd mecanweithiau Adolygiad Bwriadu Gwneud corff e.e. ydy strategaethau a gweithgareddau'r ysgol yn ddigon cadarn ac integredig? Pa mor dda a systematig y mae'r strategaethau wedi'u defnyddio? Sut mae cynnydd wedi'i fesur a dysgu a gwelliant wedi'i arddangos? Ydy'r canlyniadau a dargedwyd wedi'u cyflawni a'u gwella? Ydy tueddiadau'r holl ganlyniadau allweddol yn dangos gwelliant dros gyfnod o dair blynedd neu ragor? Os na, a oes modd esbonio diffygion? Ydy'r canlyniadau'n cymharu'n dda gydag ymarfer gorau?

Y system bwyntiau a ddefnyddir gyda'r model hon yw'r un o 0 i 1000, mae 700 i 750 pwynt yn cael eu hystyried yn ''Gradd Flaenaf' (waeth beth fo sector y farchnad neu ddiwydiant). Bydd enillwyr Gwobr Rhagoriaeth Ewropeaidd yn sgorio yn y raddfa hon tra bod enillwyr Gwobrau Cenedlaethol fel rheol yn sgorio rhwng 550 a 650 pwynt.

Fel rheol byddai Mentrau Bach i Ganolig (cyrff gyda llai na 250 o gyflogai) yn cael eu hasesu gan ddefnyddio fersiwn gryno (yn defnyddio 22 o is feini prawf yn hytrach na'r 32 llawn). Mantais y system bwyntiau yw ei fod yn darparu meincnod y gall cyrff fesur cynnydd yn ei erbyn.

Er enghraifft pe bai corff llywodraethu eisiau meincnodi 'Arweinyddiaeth' gallai ddarganfod partneriaid sydd yn sgorio'n dda yn y maen prawf hwnnw i rannu gwybodaeth a phrofiad.

Am ragor o wybodaeth ewch i: www.efqm.org

Cymariaethau gyda, a defnydd o'r gwahanol Fodelau

Mae hunan werthuso yn rhan hynod o bwysig o'r broses o welliant parhaus a gall y Modelau a ddisgrifir yn y nodyn canllaw hwn gynorthwyo ysgol a'i chorff llywodraethu i feincnodi cynnydd yn erbyn amrywiol feini prawf.

Mae cysylltiadau cryf rhwng y modelau hyn ar gyfer gwelliant a gellir eu defnyddio i yrru perfformiad eithriadol yn yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y corff llywodraethu ac o fewn yr ysgol.

Gellir gweld y cysylltiadau potensial rhwng yr amrywiol fframweithiau yn y tabl ar wefan Llywodraethwyr Cymru. Nid yw pob cysylltiad wedi'i ddangos ond mae'r tabl yn dangos y gorgyffwrdd sydd yn bodoli rhwng yr amrywiol fframweithiau. Mae'n ceisio dangos y bydd tystiolaeth sydd yn bodloni maen prawf neu is faen prawf neilltuol mewn un Model yn bendant yn bodloni elfennau un arall.

Mae fframweithiau fel y rhai uchod yn chwarae rhan arwyddocaol mewn hyrwyddo effeithlonrwydd ysgol a chorff llywodraethu oherwydd eu bod yn darparu meincnod y gellir mesur cynnydd tuag at ragoriaeth yn ei erbyn.

Maent yn offer y gall cyrff llywodraethu a Thimau Arweinyddiaeth Ysgol eu defnyddio i nodi cryfderau'r ysgol a meysydd ar gyfer gwelliant i flaenoriaethu gweithgarwch yng Nghynllun Datblygu/Gwelliant yr Ysgol.

Hunan Werthuso

Dylai fod gan y corff llywodraethu a'r UDA weledigaeth gyffredin neu fodel o'r hyn sydd yn 'dda' ar gyfer eu hysgol. Bydd y model hwn wedi'i ddatblygu o'u profiad proffesiynol gyda'i gilydd a bydd y wybodaeth wedi'i chasglu i baratoi'r Cynllun Strategol neu'r Cynllun Datblygu/Gwelliant Ysgol a ddisgrifir yn Rhan 2.

Pa bynnag fframwaith y mae'r corff llywodraethu yn ei ddewis i werthuso ei effeithlonrwydd mae'n bwysig bod yn realistig ac yn systematig. Y man cychwyn ar gyfer gwelliant yw hunan werthusiad beirniadol. Os yw hunan werthusiad yn anghywir bydd y man cychwyn ar gyfer gwella perfformiad yn anghywir a gellir gwastraffu amser ac adnoddau yn ceisio adeiladu ar gyfer llwyddiant ar sylfaen gwan.

Mae enghraifft o holiadur llywodraethwyr i wirio effeithlonrwydd corff llywodraethu ar gael yn **Llawlyfr i Lywodraethwyr Ysgolion yng Nghymru**, Adran 3.7. Neu gall yr AALl ddarparu dogfen ar gyfer yr un peth.

Beth sy'n creu corff llywodraethu da?

Mae gan gyrff llywodraethu effaith uniongyrchol ar bob agwedd o arweinyddiaeth strategol. Bydd nodweddion tîm yn perfformio'n uchel a drafodwyd yn Rhan 1 yn amlwg mewn corff llywodraethu effeithiol. Hefyd y cysyniadau o ragoriaeth fel y'u cysylltir â chyrff llywodraethu yw:

1. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o anghenion a disgwyliadau rhan ddeiliaid (staff, disgyblion, cyflogwyr, y gymuned leol, ALl, Esgobaeth a Llywodraeth Cynulliad Cymru) a gallant ymateb yn briodol. Defnyddir y wybodaeth hon i ddatblygu, gweithredu ac adolygu polisïau, strategaethau, targedau ac amcanion.

2. Gallant wahaniaethu anghenion a disgwyliadau disgyblion unigol a rhieni a phan fo pethau'n mynd o chwith gallant ymateb yn gyflym ac yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r sector addysg ac maent yn rheoli newid er budd yr ysgol.

3. Maent yn darparu arweinyddiaeth a chysondeb pwrpas sydd yn nodi'n glir beth yw eu disgwyliadau a'u gweledigaeth ar gyfer yr ysgol. Maent yn sefydlu gwerthoedd, safonau a strwythur llywodraethu sydd yn denu ffyddlondeb ac ymrwymiad i gyflawni nodau'r ysgol.

4. Maent yn deall rhyngddibyniaeth systemau a phrosesau a sut mae'r ysgol yn gweithio. Maent wedi diffinio'r ffactorau llwyddiant a'r prosesau allweddol sydd yn hanfodol i lwyddiant yr ysgol. Mae cyfarfodydd yn canolbwyntio ar y ffeithiau a data perfformiad. Mae penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth ddibynadwy. Mae pob risg mawr i berfformiad yn cael eu nodi, yn cynnwys cyfyngiadau cyllideb ac mae cynlluniau'n cael eu creu i'w lleihau neu i gael gwared ohonynt.

5. Maent yn gwerthfawrogi pwysigrwydd recriwtio a chadw athrawon a staff cefnogi da. Hyrwyddir a chefnogir datblygiad personol .er mwyn diwallu galwadau yn y dyfodol. Maent yn gofalu am, yn gwobrwyo ac yn cydnabod pobl gan adeiladu diwylliant o barch ac ymddiriedaeth.

6. Maent yn herio'r status quo ac nid oes ofn arnynt i fod y cyntaf i roi cynnig ar rhywbeth gwahanol. Maent yn defnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu o adolygiadau mewnol ac adolygiadau eraill i arloesi a chreu cyfleoedd ar gyfer gwelliant. Defnyddir meincnodi mewnol ac allanol yn systematig i nodi dulliau mwy effeithiol o wneud pethau.

7. Maent yn cydnabod, mewn amgylchedd addysg sydd yn newid yn gyflym, y gall llwyddiant ddibynnu ar ddatblygu partneriaethau cryf gydag ysgolion eraill, cyflogwyr, sectorau o'r gymuned, colegau AB, ALl a'r Esgobaeth. Mae partneriaethau'n canolbwyntio ar gyflwyno mwy o werth i ddisgyblion a rhieni a datblygu galluoedd craidd yr ysgol.

8. Maent yn mabwysiadu ymagwedd hynod o foesegol tuag at gyfrifoldebau cymdeithasol yr ysgol gan sicrhau bod gofal dros yr amgylchedd a'r gymuned leol wedi'i adlewyrchu yn y gwerthoedd y maent yn eu hyrwyddo a bod hynny wedi'i integreiddio i'r prosesau a ddefnyddir gan yr ysgol.

Ffactorau Llwyddiant Hanfodol a Phrosesau Allweddol

Er mwyn cyflawni rhagoriaeth mewn unrhyw beth rhaid cydnabod a darparu ar gyfer yr holl amodau blaenorol y mae'n rhaid eu cyflawni. Gelwir yr amodau blaenorol hyn hefyd yn 'Ffactorau Llwyddiant Hanfodol'. Wrth ffocysu staff a rhan ddeiliaid eraill ar nodau ac amcanion yr ysgol mae'n bwysig bod y corff llywodraethu a'r UDA yn penderfynu ar y Ffactorau Llwyddiant Hanfodol fel rhan o'r broses gynllunio strategol. Y prawf gwirioneddol ar gyfer Ffactor Llwyddiant Hanfodol yw: 'Os na chyflawnir y Ffactor hwn a oes modd gwireddu ein gweledigaeth?' Enghraifft o Ffactor Llwyddiant Hanfodol yw '*Cyflawniad Dysgwyr/ Cwblhau'n Llwyddiannus'.*

Mae rhagor o wybodaeth am y Ffactorau Llwyddiant Hanfodol a Phrosesau Allweddol ac enghraifft o fatrics ar gael ar wefan Llywodraethwyr Cymru www.llywodraethwyrcymru.org.uk.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA)

Bydd y corff llywodraethu a'r UDA yn defnyddio nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) i reoli gwelliant ysgol ac adolygu cynnydd tuag at eu gweledigaeth ar gyfer yr ysgol. Wrth ddethol pa DPA i'w monitro a'u gwerthuso bydd y corff llywodraethu'n gofyn nifer o gwestiynau:

Ydyn ni'n mesur y pethau cywir?
Oes gennym ni ddata tair blynedd i ddangos bod tueddiadau yn mynd i'r cyfeiriad cywir?
Oes gennym ni dargedau realistig, rhesymegol?
Oes gennym ni gymariaethau gydag ymarfer gorau (ALl, Cymru neu'r DU)?
Ydyn ni'n gallu cysylltu canlyniadau gyda'n strategaethau a'n hymyrraeth?
Pa fecanweithiau adolygu sydd gennym? Ydy'r canlyniadau fel y rhagolygon neu yn well na'r targed?
Ydyn ni'n gallu dangos gwelliant parhaus?
Ydyn ni'n gallu dangos 'gwerth ychwanegol'?

Gweler hefyd: Ffynonellau Gwybodaeth yn Rhan 2 o'r gyfres Canllaw i Lywodraethwyr hon.

Arwydd o Dîm Arweinyddiaeth Ysgol da yw sicrhau bod y data hwn yn gywir ac yn amserol.
Arwydd o gorff llywodraethu da yw ei allu i weithio gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Ysgol i droi'r data perfformiad hwn yn strategaethau sydd yn helpu pob disgybl i gyrraedd eu potensial llawn.

I grynhoi

Ar ôl darllen y canllaw tri rhan hwn bydd gan lywodraethwyr ddarlun clir o'r rôl sylweddol y gall y corff llywodraethu ei chwarae mewn datblygu a chyflawni gweledigaeth, amcanion a thargedau eu hysgol. Mae cyfrifoldeb trwm ar y corff llywodraethu i sicrhau bod eu hysgol yn darparu'r cyfleoedd gorau i bob plentyn, waeth beth fo'u hoedran na'u gallu, i gyrraedd eu potensial llawn mewn amgylchedd llawn gofal.

Ond nid oes gobaith gan gyrff llywodraethu ac ysgolion i ddiwallu'r sialensau sydd yn eu wynebu heb gymorth a chefnogaeth rhieni a rhwydwaith cryf ac effeithiol o gyrff partneriaid.

Gall ysgolion eraill (a'u llywodraethwyr), colegau, cyflogwyr, cyrff cymunedol, ALl, awdurdod esgobaeth a Llywodraeth Cynulliad Cymru helpu'r ysgol i gyflawni ei nodau.

Bydd corff llywodraethu effeithiol yn sicrhau ei fod yn defnyddio pob adnawdd sydd ar gael ac y gall ei bartneriaid eu cynnig allai ychwanegu gwerth at brofiad addysgol eu ysgol .

Mae'r canllaw hwn yn cynnig crynodeb o rai o'r prif bwyntiau ar Gyrff Llywodraethu Effeithiol. Dylid ei ddefnyddio ar y cyd gyda chyngor a chefnogaeth fanwl a gynhyrchir gan eich ALl ac awdurdod esgobaeth lle mae hynny'n briodol.

Llyfryddiaeth a chysylltiadau gwefan defnyddiol

- EFQM Excellence Model, www.efqm.org
- Estyn: Adroddiadau Blynyddol – www.estyn.gov.uk/annualk_report.asp
- Investors In People UK - www.investorsinpeople.co.uk
- Canolfan Ansawdd Cymru (Gwobr Ansawdd Cymru) - www.walesqualitycentre.org.uk
- Llywodraeth Cynulliad Cymru - www.SkillsPeopleSuccess.com

Llywodraethwyr Cymru www.llywodraethwyrcymru.org.uk

- Llawlyfr Llywodraethwyr Ysgolion yng Nghymru (2007)
- Ffeil Ffeithiau 'Y Ffrind Beirniadol' (2008)

Cyhoeddiadau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

- Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion - http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications
- Canllaw Llywodraethwyr Ysgolion i'r Gyfraith – www.wales.gov.uk
- Rheoliadau Canllaw ar Lywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000, Cylchlythyr CCC Rhif. 34/2000 - www.wales.gov.uk
- Côd Ymarfer ar Gysylltiadau AALl-Ysgolion:Y Swyddfa Gymreig (Mehefin 1999) - www.wales.gov.uk

Rheoliadau

- Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 – www.opsi.gov.uk
- Rheoliadau Canllaw ar Lywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000 – www.opsi.gov.uk

Gweler hefyd y deunyddiau cyfeirio ar www.llywodraethwyrcymru.org.uk

- Ffactorau Llwyddiant Hanfodol a Phrosesau Allweddol
- Traws gyfeirio Ffactorau Llwyddiant Hanfodol gyda Phrosesau Allweddol
- Fframwaith Modelau Gwelliant
- Awgrymiadau ar gyfer mesur perfformiad

Ffynonellau eraill

- Drucker P: Managing challenges for the 21st Century – 1999 Harper Business
- Taylor & Ryan (2005) Excellence in Education: the making of great schools - David Fulton Publishers
- Tuckman B (1965) - Developmental sequence in small groups